Supplementary written evidence submitted by Ofcom

Broadcasting in Wales

Thank you for the opportunity to give evidence to the Welsh Affairs Select Committee about Broadcasting in Wales on Wednesday 19 April. As we expressed to the Committee, Ofcom recognises the importance of the broadcasting landscape in Wales and our regulation aims to ensure that audiences in Wales are served a range of high-quality content and that they can see themselves reflected on the screen. During the session several issues were raised which we agreed to follow up on in writing.

The Listed events regime

In response to a question from Mr Brennan regarding the broadcast of sports on S4C, we said we would share research that Ofcom had commissioned looking at trends in sports rights. This research can be found at the link here.

In addition, Mr Brennan asked whether the Ofcom Code on Sport and other Listed and Designated Events ('the Code') could be amended to require a Welsh language commentary to be provided.

The Code relates to our functions under the "listed events" regime under Part 4 of the Broadcasting Act 1996. It therefore relates only to listed events, not all sports broadcasting. The purpose of the Code is to give guidance on how Ofcom will exercise its functions under the regime, in particular our function of determining whether to give consent to broadcasters applying to broadcast a listed event. It is not an instrument which imposes requirements on broadcasters (unlike, for example, our Broadcasting Code).

We exercise that function consistently with the statutory purpose of the regime. The listing of an event ensures that the broadcast rights to that event must be made available to "qualifying services" (currently, the free-to-air channels that are received by 95% of the UK population), with the objective of ensuring that live coverage of events of national interest is widely available and free-to-air for all audiences. The statutory regime addresses only "live coverage" of listed events and makes no reference to how that coverage is presented (such as the provision of commentary). As such, Ofcom is not empowered to require provision of commentary in particular languages.

In relation to S4C's sports broadcasting (which the Deputy Welsh Language Commissioner referred to in her written evidence), we note that the draft Media Bill includes reforms to the qualifying criteria for the listed events regime so that a "qualifying service" must be provided by a PSB. This will ensure that S4C benefits by becoming a qualifying service for the first time.

Young people and social media

Geraint Davies raised the issue of Ofcom's role in relation to social media and the protection of young people and we said we would write to you about the progress of our online safety work.

As the statutory regulator for UK established Video Sharing Platforms (VSPs), Ofcom is already working with platforms such as Snapchat, TikTok and Twitch, to ensure they have measures in place to protect under-18s from harmful material. We published a report on Ofcom's first year of video-sharing platform regulation in October 2022, which sets out the work we have been doing and presents in detail some of the information provided to us by the VSPs about the measures they have

in place.

Once the Online Safety Bill receives Royal Assent, Ofcom will oversee the requirements on a much broader range of services. Services which host user-generated content and search engines will be required to have systems and processes in place to protect individuals from certain types of harm online. Implementing measures to protect children are a high priority for Ofcom. We recently wrote to peers on this subject as part of an update on our wider preparations.

Ofcom's presence on TikTok

During the session you asked whether Ofcom had a presence on TikTok, and we stated that we did not. However, regrettably, this was incorrect, and we therefore wish to correct the record. Having now had the opportunity to consult with communications colleagues, we can confirm that Ofcom does have a TikTok account. This is one of a range of social media channels we use to raise awareness of our work and engage directly with UK audiences. We are also present on Twitter, Facebook, Instagram, LinkedIn and YouTube.

Viewing and listening trends for Wales

Mr Lake asked whether Ofcom had any data or evidence about audiences in Wales which suggests that access to superfast broadband precipitates a fall in more traditional linear viewing and therefore could be a factor for the drop in viewing of BBC channels in Wales. Whilst Ofcom can look at homes with broadband and their viewing behaviours using industry sources, this is not broken down by types of broadband speed.

Lastly, in response to a question from Mr Brennan on devolution of broadcasting to Wales, we offered to share our research which we provided to the expert panel of the Welsh Government tasked with looking at the devolution of broadcasting. These documents can be found at the following links:

Sports trends analysis we commissioned from Ampere:

Our children's content review work

And our latest news consumption report:

We hope this additional information answers your questions.

Darlledu yng Nghymru

Diolch am y cyfle i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig am Ddarlledu yng Nghymru ddydd Mercher 19 Ebrill. Fel y gwnaethom ei fynegi i'r Pwyllgor, mae Ofcom yn cydnabod pwysigrwydd y dirwedd darlledu yng Nghymru, a nod ein gwaith rheoleiddio yw sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru yn cael amrediad o gynnwys o ansawdd uchel a'u bod yn gallu gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu ar y sgrin. Codwyd nifer o faterion yn ystod y sesiwn, a chytunwyd i fynd ar drywydd y rhain yn ysgrifenedig.

Y drefn digwyddiadau rhestredig

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr Brennan ynghylch darlledu chwaraeon ar S4C, fe wnaethom ddweud y byddem yn rhannu ymchwil yr oedd Ofcom wedi'i gomisiynu yn edrych ar dueddiadau mewn hawliau chwaraeon. Mae'r ymchwil hwn ar gael drwy ddilyn y ddolen yma.

Hefyd, gofynnodd Mr Brennan a ellid diwygio Cod Ofcom ar Chwaraeon a Digwyddiadau Rhestredig a Dynodedig eraill ('y Cod') i fynnu bod sylwebaeth Gymraeg yn cael ei darparu.

Mae'r Cod yn ymwneud â'n swyddogaethau o dan y drefn "digwyddiadau rhestredig" o dan Ran 4 o Ddeddf Darlledu 1996. Felly, dim ond i ddigwyddiadau rhestredig y mae'n berthnasol, nid pob darllediad chwaraeon. Pwrpas y Cod yw rhoi arweiniad ar sut bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau o dan y drefn, yn enwedig ein swyddogaeth o benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad i ddarlledwyr sy'n gwneud cais i ddarlledu digwyddiad rhestredig. Nid yw'n offeryn sy'n gosod gofynion ar ddarlledwyr (yn wahanol i'n Cod Darlledu, er enghraifft).

Rydym yn arfer y swyddogaeth honno'n gyson â phwrpas statudol y drefn. Mae rhestru digwyddiad yn sicrhau bod yn rhaid i hawliau darlledu'r digwyddiad hwnnw fod ar gael i "wasanaethau cymwys" (ar hyn o bryd, y sianeli am ddim sy'n cael eu derbyn gan 95% o boblogaeth y DU), gyda'r nod o sicrhau bod darllediadau byw o ddigwyddiadau o ddiddordeb cenedlaethol ar gael yn eang ac am ddim i bob cynulleidfa. Mae'r drefn statudol yn rhoi sylw i "ddarllediad byw" o ddigwyddiadau rhestredig yn unig ac nid yw'n cyfeirio at sut mae'r ddarpariaeth honno'n cael ei chyflwyno (fel darparu sylwebaeth). O'r herwydd, nid oes gan Ofcom y pŵer i fynnu bod sylwebaeth yn cael ei darparu mewn ieithoedd penodol.

Mewn perthynas â darlledu chwaraeon gan S4C (y cyfeiriodd Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg ato yn ei thystiolaeth ysgrifenedig), nodwn fod y Bil Cyfryngau drafft yn cynnwys diwygiadau i'r meini prawf cymhwyso ar gyfer y drefn digwyddiadau rhestredig, fel bod yn rhaid i ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus ddarparu "gwasanaeth cymwys". Bydd hyn yn sicrhau bod S4C yn elwa drwy ddod yn wasanaeth cymwys am y tro cyntaf.

Pobl ifanc a'r cyfryngau cymdeithasol

Cododd Geraint Davies fater ynghylch rôl Ofcom mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol a diogelu pobl ifanc, a dywedasom y byddem yn ysgrifennu atoch am ddatblygiad ein gwaith diogelwch ar-lein.

Fel rheoleiddiwr statudol Llwyfannau Rhannu Fideos (VSP) sydd wedi'u sefydlu yn y DU, mae Ofcom eisoes yn gweithio gyda llwyfannau fel Snapchat, TikTok a Twitch, i sicrhau bod ganddynt fesurau ar waith i ddiogelu pobl ifanc o dan 18 oed rhag deunydd niweidiol. Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ar flwyddyn gyntaf Ofcom o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos ym mis Hydref 2022, sy'n nodi'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud ac yn cyflwyno'n fanwl rywfaint o'r wybodaeth a roddwyd i ni gan y VSP am y mesurau sydd ar waith.

Ar ôl i'r Bil Diogelwch Ar-lein gael Cydsyniad Brenhinol, bydd Ofcom yn goruchwylio'r gofynion ar ystod llawer ehangach o wasanaethau. Bydd yn ofynnol i wasanaethau sy'n cynnal unrhyw gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr a pheiriannau chwilio gael systemau a phrosesau ar waith i ddiogelu unigolion rhag mathau penodol o niwed ar-lein. Mae rhoi mesurau ar waith i amddiffyn plant yn flaenoriaeth uchel i Ofcom. Yn ddiweddar, fe wnaethom ysgrifennu at aelodau Tŷ'r Arglwyddi ar y pwnc hwn fel rhan o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein paratoadau ehangach.

Presenoldeb Ofcom ar TikTok

Yn ystod y sesiwn, fe wnaethoch chi ofyn a oedd gan Ofcom bresenoldeb ar TikTok ac fe wnaethom ddatgan nad oes gennym bresenoldeb arno. Ond, yn anffodus, roedd hyn yn anghywir ac felly rydym yn awyddus i gywiro'r cofnod. Ar ôl cael cyfle nawr i ymgynghori â chydweithwyr cyfathrebu, gallwn gadarnhau bod gan Ofcom gyfrif TikTok. Dyma un o'r amrywiaeth o sianeli cyfryngau cymdeithasol rydyn ni'n eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith ac i ymgysylltu'n uniongyrchol â chynulleidfaoedd y DU. Rydym hefyd yn bresennol ar Twitter, Facebook, Instagram, LinkedIn a YouTube.

Tueddiadau gwylio a gwrando yng Nghymru

Gofynnodd Mr Lake a oedd gan Ofcom unrhyw ddata neu dystiolaeth am gynulleidfaoedd yng Nghymru sy'n awgrymu bod mynediad at fand eang cyflym iawn yn arwain at ostyngiad mewn gwylio llinol mwy traddodiadol, ac felly gallai fod yn ffactor ar gyfer y gostyngiad yn lefelau gwylio sianeli'r BBC yng Nghymru. Er bod Ofcom yn gallu edrych ar gartrefi sydd â band eang a'u hymddygiad gwylio gan ddefnyddio ffynonellau'r diwydiant, nid yw hyn wedi'i rannu yn ôl mathau o gyflymder band eang.

Yn olaf, mewn ymateb i gwestiwn gan Mr Brennan ar ddatganoli darlledu i Gymru, fe wnaethom gynnig rhannu ein hymchwil a ddarparwyd gennym i banel arbenigol Llywodraeth Cymru a oedd â'r dasg o edrych ar ddatganoli darlledu. Mae'r ymchwil hwn ar gael drwy ddilyn y dolenni yma:

Dadansoddiad tueddiadau chwaraeon a gomisiynwyd gennym gan Ampere:

Gwaith adolygu cynnwys ein plant

A'n hadroddiad defnydd newyddion diweddaraf:

Gobeithio bod y wybodaeth ychwanegol hon yn ateb eich cwestiynau.

19 May 2023